# Cynhyrchu cynlluniau rheoli pysgodfeydd

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â chynhyrchu cynlluniau rheoli pysgodfeydd. Mae’n cwmpasu dadansoddi gwybodaeth reoli er mwyn pennu amcanion rheoli a datblygu ar gyfer pysgodfa. Bydd y cynlluniau rheoli’n cynnwys cynnal a chadw cynefin, gwella cynefin, monitro a chasglu data, rheoli stoc pysgod a rheoli ecsploetiaeth. Hefyd, mae’n cynnwys cael adborth ar y cynllun a chytundeb iddo gan bawb sy’n gysylltiedig.

Mae’r safon hon yn gofyn am y gallu i asesu maint a strwythur stociau pysgod, dosbarthu stociau pysgod, gallu’r cynefin i gefnogi stociau pysgod a rhyngweithiadau â bywyd gwyllt arall.

Bydd y ddeddfwriaeth berthnasol sy’n rheoli cymhwyso’r safon hon yn amrywio yn ôl lleoliad y bysgodfa yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dadansoddi gwybodaeth reoli i asesu nodweddion y bysgodfa a chael argymhellion rheolwyr er mwyn cynhyrchu cynlluniau rheoli pysgodfeydd
2. egluro'r ffactorau a all effeithio ar botensial hirdymor pysgodfa
3. cynhyrchu cynlluniau rheoli pysgodfeydd i gyflawni potensial y bysgodfa a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol perthnasol
4. cael adborth gan y rhai sy'n ymwneud â'r bysgodfa fel rhan o ddatblygiad cyffredinol cynlluniau rheoli pysgodfeydd
5. pennu'r gofynion adnoddau sy'n ofynnol i gynorthwyo â gweithredu cynlluniau rheoli pysgodfeydd yn llwyddiannus
6. sefydlu amrywiaeth o ymyriadau y gellir eu defnyddio i sicrhau bod amcanion cynlluniau reoli pysgodfeydd yn cael eu cyflawni
7. cyfleu gofynion cynlluniau rheoli pysgodfeydd i bawb sy'n ymwneud â'u gweithredu

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i gynhyrchu cynlluniau rheoli pysgodfeydd a’r wybodaeth i’w chynnwys
2. sut i bennu’r gofynion adnoddau y mae eu hangen i gynorthwyo â gweithredu cynlluniau rheoli pysgodfeydd yn llwyddiannus
3. y gofynion cyfreithiol perthnasol sy’n gysylltiedig â rheoli pysgodfeydd
4. hanes bywyd y stoc pysgod sy’n bresennol yn y bysgodfa
5. yr integreiddio rhwng stociau pysgod a’u cynefin
6. gofynion amgylcheddol y pysgod sy’n bresennol yn y bysgodfa
7. y camau y gellir eu cymryd i gynnal a gwella cynefin y pysgodfeydd
8. sut i gasglu ac asesu gwybodaeth reoli er mwyn pennu nodweddion pysgodfa
9. y dulliau a ddefnyddir i fonitro poblogaethau pysgod
10. clefydau pysgod cyffredin ac achosion posibl yr haint
11. clefydau pysgod hysbysadwy a phwysigrwydd rhoi gwybod i’r awdurdod priodol
12. sut i gynnal potensial pysgodfeydd
13. y dulliau a ddefnyddir wrth bennu strwythur y boblogaeth pysgod
14. y ffactorau a all effeithio ar bysgodfa a sut i gyfyngu ar eu heffaith
15. dulliau dal pysgod a’u cymhwysiad wrth dynnu pysgod o bysgodfeydd
16. y gofynion cyfreithiol perthnasol sy’n dylanwadu ar weithgareddau rheoli pysgodfeydd
17. pwy yw’r rhanddeiliaid a’u cysylltiad â’r bysgodfa
18. rôl pysgodfeydd wrth reoli amgylcheddau dŵr
19. diogelwch stoc pysgod a sut gall rhywogaethau estron gael effaith andwyol ar ecoleg y bysgodfa frodorol
20. beth yw stoc pysgod cynaliadwy a beth all achosi ecsploetiaeth
21. y gofynion iechyd a diogelwch, amgylcheddol, bioddiogelwch a chyfreithiol perthnasol sy’n gysylltiedig â rheoli pysgodfeydd

## Geirfa

**Ffactorau:**

1. dirywiad cynefin
2. rhyngweithiadau ysglyfaethwr/ysglyfaethau
3. prinder maeth
4. clefyd
5. y defnydd o dir
6. dylanwadau dynol

**Cynlluniau rheoli pysgodfeydd yn cwmpasu:**

1. cynnal a chadw cynefin
2. gwella cynefin
3. monitro a chasglu data
4. rheoli stoc pysgod yn gynaliadwy
5. rheoli ecsploetio cynaliadwy
6. rheoli diogelwch stoc
7. bioddiogelwch

**Gwybodaeth reoli, gan gynnwys:**

1. arolygon cynefin
2. cofnodion pysgota
3. y defnydd o adnoddau
4. data ac ymchwil cyhoeddedig

**Rhanddeiliaid:**

Unrhyw berson, sefydliad neu unigolyn sydd â budd yn y bysgodfa

**Amgylcheddau dŵr:**

1. Llynnoedd
2. Afonydd
3. Aberoedd
4. Dyfroedd arfordirol

Cynhyrchu cynlluniau rheoli pysgodfeydd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Ion 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANFiM25 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Perchennog/Rheolwr, Uwch Reolwr Pysgodfa |
| **Cyfres/Set** | Rheoli Pysgodfeydd |
| **Geiriau Allweddol** | pysgodfeydd; rheoli; monitro; data |